**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 05-01(p5)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 28 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm - 5.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

# Strategaeth Coetir Cymru (Drafft)

Rhagair – gan Carwyn Jones (Gweinidog Materion Gwledig)

**CYNNWYS**


**Rhagair gan Carwyn Jones, Gweinidog Materion Gwledig**

**Crynodeb Gweithredol**

**RHAN 1: CYFLWYNO'R STRATEGAETH**

**1.1 Rhagair**
**Ein Gweledigaeth**
**Egwyddorion Arweiniol**
a) Cynaliadwyedd
b) Cynhwysiad Cymdeithasol
c) Ansawdd
ch) Partneriaeth
d) Integreiddiad
**1.4 Cyd-Destun**
a) Hanes
b) Yr Adnodd
c) Edrych ymlaen
ch) Cyflawni'n hymrwymiadau rhyngwladol
**1.5 Amserlen**

**RHAN 2: AMCANION STRATEGOL**
**2.1 Rhagair**
**2.2 Coetiroedd i Bobl**
**2.3 Pwyslais newydd ar reolaeth coetir**
**2.4 Cymru fel lleoliad diwydiannau coedwig o reng byd-eang**
**2.5 Amgylchedd amrywiol ac iach**
**2.6 Twristiaeth, hamdden ac iechyd**

**RHAN 3: GWEITHREDU’R STRATEGAETH**
**3.1 Gweithredoedd a cherrig milltir**
**3.2 Gwerthuso ac arolygu**

**RHAN 4: ESBONIAD A THYSTIOLAETH**
**4.1 Deall y cyd-destun**
a) Cyd-hanes coetiroedd Cymru
b) Rheolaeth coetir traddodiadol
c) Hanes yn yr ugeinfed ganrif
ch) Y cyfnod cyfoes
**4.2 Paratoi’r Strategaeth**
a)Crynodeb o’r Ymgynghori
b) Elfennau allweddol
c) Y broses yn dilyn ymgynghori

**Crynodeb Gweithredol**

---

## RHAN 1: CYFLWYNO’R STRATEGAETH

### 1.1 Rhagair

Mae datganoli wedi rhoi’r symbyliad am agenda newydd ac arbennig Cymreig ar gyfer coetiroedd Cymru. Gallwn bellach ddatblygu agwedd newydd tuag at goetiroedd yng Nghymru trwy’r strategaeth hon. Bydd rheolaeth gynaliadwy i goetiroedd yn cyfrannu tuag at nod y Cynulliad Cenedlaethol o gyfiawnder cymdeithasol a ffyniant i bawb. Ein nod yw datblygu coetiroedd o ansawdd uchel yng Nghymru, gydag ansawdd amgylcheddol a darpariaeth gymdeithasol ragorol o fewn diwydiant sydd yn cyfrannu’n adeiladol tuag at yr economi trwy ddarparu cyflogaeth ddiogel, tymor-hir. O fewn coedwigaeth, ni fydd penderfyniadau a wneir heddiw yn dangos eu heffeithiau llawn am hanner canrif neu fwy, felly mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad i ddatblygiad parhaus y strategaeth hon an hanner cyntaf yr 21ain Ganrif.

### 1.2  Ein Gweledigaeth

**EIN GWELEDIGAETH ar gyfer yr hanner can mlynedd nesaf** yw i Gymru gael ei chydnabod am ei choetiroedd o ansawdd uchel sydd yn mwyhau'r dirwedd, sydd yn briodol i'r amgylchiadau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd.

Bydd y rhain yn gwneud y canlynol:

- Darparu mwy o fuddion cymdeithasol a chymunedol, yn lleol ac yn genedlaethol;
- Cynnal diwydiannau llewyrchus ar sail coetir; a
- Chyfrannu tuag at amgylchedd o well ansawdd ledled Cymru

Gwireddir y weledigaeth hon trwy gyfrwng pum rhaglen o weithgaredd:

- Coetiroedd i Bobl
- Pwyslais newydd ar reolaeth coetir
- Cymru fel lleoliad i ddiwydiannau coedwig o reng byd-eang
- Amgylchedd amrywiol ac iach
- Twristiaeth, hamdden ac iechyd

## 1.3 Egwyddorion Arweiniol

Bydd yr egwyddorion o ddatblygiad cynaliadwy, cyfiawnder cymdeithasol a chyfartaledd cyfle, fel ag a fynegir yn **Y Gymru Gynaliadwy: Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru;** a Chynllun Corfforaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn dwyn y teitl **gwellgymru.com** yn gymwys ar gyfer holl amcanion y strategaeth hon. Cyflawnir ein gweledigaeth am ddyfodol coetiroedd Cymru trwy gyfrwng yr egwyddorion arweiniol hyn:

### a) Cynaliadwyedd

Trwy ddeddfwriaeth a thrwy ddewis, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad tuag at ddatblygiad cynaliadwy. Mae gan goetiroedd Cymru ran allweddol i'w chwarae wrth gyrraedd yr amcanion triphlyg o ddatblygiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r strategaeth coetir hon yn rhan annatod o gynllun datblygu cynaliadwy cyfannol i Gymru.

### b) Cynhwysiad Cymdeithasol

Gall coetir wneud gwahaniaeth i ansawdd bywydau'r bobl. Trwy gyfranogiad cymunedol, gall pobl leol helpu perchnogion coetir i sicrhau darpariaeth o gyfleoedd am ddatblygiad economaidd, hamdden a gofal iechyd rhagofalus trwy fwy o fynediad i'r awyr iach ac am le i ymarfer yn agos i'w trigfannau. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb arbennig am sicrhau bod ei goetiroedd yn darparu buddion cymdeithasol i gymunedau.

**c) Ansawdd**

Rhaid i goetiroedd Cymru gyflawni canlyniadau o ansawdd i bawb, boed hynny trwy hamdden, cynhyrchu pren, cyfranogiad cymunedol neu eu heffeithiau gweledol ac esthetig. Gall coetiroedd gyfrannu i ddelwedd Cymru trwy ddenu ymwelwyr a mwyhau ansawdd bywyd. Er mwyn cyflawni ansawdd, rhaid bod gan y sawl sydd yn rheoli coetiroedd ledled Cymru ddealltwriaeth dda o'r dulliau rheoli gorau, trwy hyfforddiant priodol, a dylant osod amcanion cyfnod hir am welliant.

**ch) Partneriaeth**

Nid rhywbeth y gall y Cynulliad Cenedlaethol ei hunan ei gyrraedd mo'r weledigaeth hon: mae angen cyfranogiad ac ymrwymiad pawb. Rhaid wrth agwedd hyblyg sydd yn cynnwys gwybodaeth a brwdfrydedd y bobl. Dim ond trwy bartneriaethau effeithiol rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, diwydiant, gwirfoddolwyr ac unigolion y gellir cyflawni'r weledigaeth.

**d) Integreiddiad**

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn integreiddio'r strategaeth coetir hon ym mhob un o'i raglenni ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae dolennau cryfion yn bodoli rhwng coedwigaeth ac amaethyddiaeth. Mae'r naill ddiwydiant a'r llall yn wynebu heriau o gwympiadau mewn prisiau'r farchnad, cystadleuaeth gan fewnforion rhad a'r angen i addasu i destunau cymdeithasol ac amgylcheddol. Gallai integreiddiad agosach rhwng y gwahanol raglenni cymdeithasol, amgylcheddol, coedwigaethol ac amaethyddol helpu'n ddirfawr yn y broses hon. Bydd Strategaeth Datblygiad Economaidd Cenedlaethol y Cynulliad yn dechrau cyflawni llawer o'r gefnogaeth ddatblygu i fusnesau coedwigaeth, yn enwedig trwy bartneriaethau Amcan 1. Mae integreiddio'n bosibl hefyd mewn polisïau trefol lle y gall coed a choetiroedd yn ein trefi a dinasoedd ac o'u cwmpas wella ansawdd bywyd y sawl sydd yn byw ac yn gweithio yno.

**1.4 Cyd-Destun**

**a) Hanes**

Mae gan goetiroedd Cymru hanes hir, fel ag a fanylir yn Rhan 4 o'r strategaeth hon. Yn ystod y ganrif a aeth heibio, gweithredodd y Llywodraeth yn bositif i ddyblu gorchudd coetir y DU, mewn ymateb i brinderau pren a ddigwyddodd yn ystod y naill Ryfel Byd a'r llall. Datblygwyd yr ystâd goedwig hon i raddau helaeth ar dir amaethyddol o ansawdd isel ac ar rostir y tir uchel. Roedd y coetiroedd a grëwyd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat trwy weithredu'n uniongyrchol a thrwy ysgogiadau ariannol yn blanhigfeydd pwrpas unigol o gonifferau yn bennaf a fyddai'n cynhyrchu pren yn gyflym yn yr amgylcheddau garw hyn.

Tua diwedd y ganrif daeth newidiadau ymarferol mewn canlyniad i dyfiant mewn ymwybyddiaeth

amgylcheddol, a chafwyd pwyslais newydd ar ddefnydd aml-ddibenion o goetiroedd. Mabwysiadwyd polisïau newydd, gan ailstrwythuro'r planhigfeydd hyn trwy well ddyluniant coedwig, er mwyn cyflwyno buddion aml-bwrpas – gwell dirwedd; mwy o bioamrywiaeth; mwy o fynediad a hamdden i'r cyhoedd a pharhad mewn canlyniadau economaidd o bren a chynhyrchion eraill.

**b) Yr Adnodd**

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y berchnogaeth unigol fwyaf o goetir yng Nghymru – coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth. Dyma adnodd anferth, gan gymryd tua 6% o arwynebedd tir Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio er lles y cyhoedd. Byddwn yn defnyddio'r coetiroedd hyn fel esiamplau o'r dulliau gweithredu gorau, i gyflwyno buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd trwy reolaeth flaengar – coetiroedd y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddynt â chyfiawnhad. Yn y sector preifat ceir niferoedd mawr o goetiroedd cymharol bychain a grëir ac a chynhelir gan berchnogion unigol sydd yn cynnig buddion amryfal ac amrywiol. Byddwn yn annog pob perchennog coetir i chwarae eu rhan wrth gyfrannu tuag at y frithlen gyfoethog o goetiroedd a fydd yn cyflawni'n gweledigaeth.

**c) Edrych Ymlaen**

Bydd y strategaeth hon yn parhau ag agwedd aml-bwrpas tuag at goedwigaeth a bydd yn ymdrechu i ddatblygu'n bellach y buddion cymdeithasol y gall coetiroedd eu cynnig i bobl Cymru. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod y bydd hyn yn mynnu iddo ddatblygu agwedd flaengar, newydd trwy gyfrwng y strategaeth hon. Mae coedwigaeth yn sector a hanes hir iddo, ac mae llawer o etifeddiaeth coetiroedd heddiw'n ganlyniad stiwardiaeth ofalus gan genedlaethau o berchnogion unigol. Mae'r perchnogion hyn o dan wasgedd hinsawdd ariannol heddiw, lle mae prisiau pren wedi syrthio'n arw yn ystod y 1990au diweddar. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad tuag at weithio mewn partneriaeth â pherchnogion coetiroedd, diwydiannau a'r sector gwirfoddol er mwyn mynd â'i strategaeth rhagddo.

**ch) Cyflawni'n hymrwymiadau rhyngwladol yng Nghymru**

Bydd y strategaeth hon yn helpu Llywodraeth y DU i gyflawni ei hymrwymiadau rhyngwladol i goedwigaeth gynaliadwy, fel ag a nodir yn **Safon Goedwigaeth y DU** a gyhoeddwyd ym 1998.

Ardystiwyd yn annibynnol bod holl goedwigoedd y Cynulliad Cenedlaethol yng ngofal y Comisiwn Coedwigaeth yn cyrraedd safon Cynllun Sicrwydd Coetir y DU (CACDU/UKWAS. Mae Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth rhyngwladol an-llywodraethol (CSC/FSC) yn derbyn bod y safon hon yn cwrdd â'i ofyniadau am ardystio coetiroedd a reolir yn gynaliadwy. Byddwn yn pleidio rheolaeth coedwigaeth gynaliadwy ymhlith perchnogion coetir eraill yng Nghymru, ac yn helpu datblygu cadwyn o systemau gwarchodaeth ar gyfer busnesau sydd yn defnyddio pren fel y bydd modd arddangos gynaliadwyedd cyflawn yn glir.

**1.5 Amserlen**

Mae'r strategaeth hon yn ymwneud ag ymrwymiad tuag at newid yn y ffordd y byddwn yn rheoli ac yn defnyddio'n coetiroedd yng Nghymru yn y tymor hir. Ar gyfer yr 50 mlynedd nesaf y mae ein gweledigaeth ni, ond mae hanes yn ein dysgu y gall llawer newid yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn anaml y bydd yr amgylchiadau wrth i'r coed gael eu torri yn debyg i'r rhai a ragwelwyd pan blannwyd yr un coed. Bydd yr amgylchiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn parhau i newid, a bydd effeithiau'r strategaeth hon yn weladwy yn bell i mewn i'r dyfodol.

Nid ydym yn deall yn llawn eto effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd, na chwaith yn rhagweld maint datblygiadau technolegol yn y dyfodol nac esblygiad gofyniadau'r gymdeithas. Oherwydd yr effeithiau hyn, mae'n hanfodol i hon fod yn strategaeth digon hyblyg i hwyluso newid a byddwn yn sefydlu *Fforwm Coetir Cymru* i ddiweddaru a mân-addasu gweithredoedd penodol ar hyd yr amser.

Byddwn hefyd yn ymgynghori yn ehangach o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ein bod yn dal i gwrdd â disgwyliadau pobl. Rydym yn hyderus y bydd egwyddorion sylfaenol y strategaeth hon yn parhau i fod yn berthnasol ac y bydd penderfyniadau a wneir nawr yn cyfrannu tuag at greu gwell amgylchedd i bobl Cymru ac i'n llu o ymwelwyr yn bell i mewn i'r dyfodol.

---

## RHAN 2: Amcanion Strategol

### 2.1 Rhagair

Mae'r adran hon yn gosod ein prif amcanion. Mae cyflawni'r weledigaeth yn gofyn am weithrediad ar draws ystod o amcanion a rhaid bod y cynydd tuag at y rhain yn glir ei ddisgrifiad ac yn hawdd ei fesur. Ni fydd cyrraedd y nodau yn hawdd nac yn gyflym, ond gyda brwdfrydedd a chefnogaeth ledled Cymru, gallwn ddechrau symud ymlaen.

Mae'r rhaglenni gweithgaredd yn ymgasglu o fewn pum maes helaeth:

- **Coetiroedd i Bobl**
- **Pwyslais newydd ar rheolaeth coetir**
- **Cymru fel lleoliad i ddiwydiannau coedwig o reng byd-eang**
- **Amgylchedd amrywiol ac iach**
- **Twristiaeth, hamdden ac iechyd**

### 2.2 Coetiroedd i Bobl

Mae datblygiad cymunedol yn flaenoriaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol. Nodwyd ymrwymiad y Cynulliad tuag at adfywhau ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn yr ymgynghoriadau *Cymunedau'n Gyntaf.* Gall coetiroedd gynnig buddion amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau lleol, cynnal

cyfleoedd am ddysgu a chyfrannu tuag at cynaliadwyedd lleol. Gall coed gynnig dolen bwysig rhwng pobl leol a'u tirwedd a threftadaeth. Dyma'r amcanion allweddol o ddarparu coetiroedd i bobl trwy gyfrwng y strategaeth hon:

- **Defnyddio coetiroedd fel asedion cymdeithasol a diwylliannol ar gyfer rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig;**
- **Mwyafu'r defnydd o goetiroedd at ddibenion dysgu; a hefyd**
- **Darparu cyfleoedd i gymunedau leisio barn ar y ffordd y rheolir coetiroedd yn agos i le maent yn byw.**

**2.2.1 Defnyddio coetiroedd fel asedion cymdeithasol a diwylliannol ar gyfer rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig**

Yn aml, gall coetiroedd fod yn ffordd effeithiol o ddatblygu ysbryd cymunedol. Dengys ymchwil bod pobl yn ymateb yn bositif i goed a choetiroedd, gan eu hystyried yn rhan o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru. Gall argymhellion am reoli coetiroedd lleol neu am greu coetiroedd newydd esgor ar fuddion cymunedol a diddordeb sylweddol. Gall y diddordeb hwn arwain at ddiddordeb mewn testunau amgylcheddol lleol eraill, a gweithgaredd gan wirfoddolwyr. Mae coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnig llawer o gyfleoedd am weithredu'n uniongyrchol ledled Cymru. Yn y Gymru wledig gall coetiroedd symbylu datblygiad gwledig yn canolbwyntio ar gymunedau. Mae'r rhan fwyaf o goetiroedd yn gynefinoedd gwydn a all gynnal llawer o fathau o hamdden a gallant hefyd gynnig cyflenwad cynaliadwy o bren a chynhyrchion eraill i gynnal busnesau lleol.

- *Byddwn yn annog y defnydd o goetiroedd fel catalyddion am adfywhau'r cymunedau lleol, gan ganolbwyntio ymdrechion yn y cymunedau hynny sydd â'r anfantais fwyaf.*

- *Byddwn yn datblygu cyfres o goetiroedd cymunedol ledled Cymru, gan ddefnyddio'r coetiroedd presennol neu greu coetiroedd newydd a denu cyfranogiad pobl leol yn y rheolaeth ohonynt er lles eu cymunedau.*

- *Byddwn yn hyrwyddo plannu coetiroedd fel ffordd o annog pobl i gymryd rhan mewn cynaliadwyedd lleol gan chwilio am gyfleoedd i ddod o hyd i ddefnyddiau a gwasanaethau ar gyfer busnesau lleol ac i annog bioamrywiaeth.*

- *Byddwn yn cynnal ymchwil i helpu adnabod y rhwystrau i gyfranogiad cymunedol, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn mwyafu gwerth coetiroedd i gymunedau lleol.*

- *Byddwn yn annog plannu coetir fel defnydd dros dro am safleoedd diwydiannol gweigion cyn ail-ddatblygiad, gan gynnig defnydd daionus amgylcheddol a gwaith tirwedd ymlaen llaw.*

| |
|---|
| Yn y flwyddyn 2000, ymgymerodd y fenter goetirol, Tir Coed, ag ymarfer ymgynghori gymunedol flaengar yn Nyffryn Ystwyth yng Nghanolbarth Cymru. Mynegodd y cymunedau a gymerodd ran lefelau uchel o ddiddordeb yn y rheolaeth o'u coetiroedd lleol. Byddwn yn defnyddio Dyffryn Ystwyth fel cynllun enghreifftiol blaengar ar raddfa fawr er mwyn ceisio cael y buddion mwyaf posibl ar gyfer y cymunedau lleol, gan integreiddio rheolaeth goetir, twristiaeth ac amcanion amgylcheddol er mwyn cwrdd â rhai o'u huchelgeisiau a helpu gwella'r economi gwledig mewn ffordd gynaliadwy. Credwn bod cyfleoedd gwefreiddiol yn bodoli am ddefnyddio coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yn ehangach er mwyn mwyafu cyflawniad buddion lleol er mwyn adfywio rhai o gymunedau gwledig a threfol Cymru, gan ysgogi economïau a mwyhau ansawdd eu bywydau |

### 2.2.2 Mwyafu'r defnydd o goetiroedd at ddibenion dysgu

Gellir defnyddio coed a choetiroedd i gynnal dysgu ar bob lefel ac ar draws ystod eang o destunau. Gallant fod yn gyflwyniad effeithiol i wyddorau biolegol, daearyddiaeth, mathemateg ac economeg, a bod yn nodwedd mewn gweithgareddau hamdden a chelfyddyd. Mae coetiroedd a'r defnydd o bren yn cyflwyno'r syniad o ddatblygiad cynaliadwy mewn ffordd ddealladwy. Mae diddordeb yn ninistriad y coedwigoedd trofannol a'u cysylltiad â hinsawdd y byd yn cynnig dolen â'r amgylchedd a choetiroedd lleol fel rhan o'r dreftadaeth leol.

Mae Menter Addysg Goedwig yn ymdrechu i fwyhau dealltwriaeth pobl ifanc o goed, yr amgylchedd coetirol, y fasnach bren a diwydiannau coedwigaethol. Cynhelir gan grwp o fuddiannau eang**,** o goedwigaeth a'r diwydiannau prosesu pren, gyda'r nod ar ddod ag addysg amgylcheddol i ysgolion a cholegau ledled Cymru. Mae gan y coetiroedd y posibiliadau o gael eu defnyddio fel rhan annatod o raglenni dysgu am oes, yn enwedig y rhai sydd â chysylltiad â'r dreftadaeth leol, cynaliadwyedd a'r amgylchedd.

- *Byddwn yn datblygu Menter Addysg Goedwig i hyrwyddo'r defnydd o goetiroedd fel adnodd addysgol.*
- *Byddwn yn defnyddio coetiroedd y Cynulliad i ddatblygu dolennau ag ysgolion, gyda chyfleoedd am bob ysgol yng Nghymru.*
- *Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r coetiroedd fel cyfle am addysg bellach a dysgu am oes.*
- *Byddwn yn annog Prifysgol Cymru i ddatblygu canolfan rhagoriaeth mewn gwyddor coedwigaeth ac i astudio buddion coetiroedd i gymunedau, yr economi a'r amgylchedd.*

### 2.2.3 Darparu cyfleoedd i gymunedau leisio barn ar y ffordd y rheolir coetiroedd yn agos i le maent yn byw.

Bu'r strategaeth coetir hon yn gyfle i bobl Cymru gael llais ym mholisïau'r Cynulliad Cenedlaethol ar

gyfer dyfodol coedwigaeth. Croesawyd y broses gan unigolion a "chymunedau o fudd" megis rheolwyr tir, amgylcheddwyr a diwydiannau sydd yn defnyddio pren a chymerodd rhan yn y broses. Mae'n bwysig i'r holl bobl hyn barhau gyda'u cyfranogiad ac iddynt gael cyfleoedd i helpu gweithredu ac arolygu'r strategaeth hon. Mae'r strategaeth coetir hon yn gam cyntaf yn y broses, nid y cam olaf.

- *Sefydlir Fforwm Coetir, gydag aelodaeth o ystod eang o gyrff ledled Cymru, er mwyn llywio gweithrediad, monitro cynydd, a goruchwylio datblygiad y targedau a mynegyddion a fydd yn angenrheidiol er mwyn cadw'r strategaeth o dan arolygiaeth.*

- *Byddwn yn creu dulliau o ddenu cyfranogiad pobl leol ac adeiladu cydsyniad ymhlith cymunedau.*

- *Hyrwyddir dealltwriaeth o destunau coedwigaeth yng Nghymru trwy bartneriaethau â chyrff proffesiynol, perchnogion a rheolwyr preifat, grwpiau gwirfoddol a'r sector addysg.*

**2.3 Pwyslais Newydd ar Reolaeth Coetir**

Bydd rheoli'n coetiroedd mewn ffordd sydd yn cynnig ystod eang o ganlyniadau'n flaenoriaeth allweddol. Mae gennym amrediad eang o gynefinoedd coetir tymherus yng Nghymru, o goetiroedd brodorol i blanhigfeydd o gonifferau. Dros y degawdau diweddar, amrywiwyd llawer o goedwigoedd coniffer er mwyn cynyddu amrywiaeth y rhywogaethau a'r oedrannau sydd yn bresennol, ac i gynyddu'r arwynebedd o dir agored a choed brodorol. Bydd y broses hon yn parhau a cheir gwelliannau mewn bioamrywiaeth, gan greu coetiroedd cymysg ag ymddangosiad mwy naturiol. Rhoddir y flaenoriaeth uchaf i reoli ein coetiroedd presennol, ond ceir cyfleoedd pwysig hefyd i ddarparu buddion trwy ymestyn ein gorchudd o goed. Gall coed a choetiroedd newydd chwarae rhan mewn adfywiad trefol a gwledig a helpu cyflawni buddion cadwraeth a thirwedd tra'n creu hefyd adnoddau o bren wrth gefn at y dyfodol. Dyma amcanion allweddol rheolaeth coetir:

- **Hyrwyddo dulliau gorau mewn rheolaeth coetir;**
- **Symud tuag at ddefnydd uwch o systemau gorchudd di-dor; a hefyd**
- **Dod o hyd i safleoedd addas ar gyfer coed a choetiroedd newydd.**

**2.3.1 Hyrwyddo dulliau gorau mewn rheolaeth coetir**

Yr allwedd i'r nod hwn yw sicrhau adnodd coetir hyblyg sydd mewn modd i gwrdd â heriau a chyfleoedd y ganrif newydd hon yn well. Yn rhy aml yn y gorffennol, rheolwyd coetiroedd at un diben yn unig neu ni chawsant eu rheoli o gwbl, gan gael eu gadael heb eu teneuo ac yn dirywio. Ceir llawer o wahanol fathau o goetir, sydd yn cynnig ystod o gynefinoedd sydd yn gweddu i'w lleoliad a'u perchnogaeth. Fel arfer mae coetiroedd yn gynefinoedd gwydn, ond mae newidiadau cynyddol yn yr hinsawdd a chynnydd mewn poblogaethau mathau arbennig o drychfilod a mamaliaid yn codi pryderon ar gyfer rheolaeth cynefinoedd a rhywogaethau penodol yn y dyfodol.

- *Byddwn yn datblygu dulliau o annog y defnydd o'r dulliau gorau mewn rheolaeth coetir ac*

*ymestyn cynllunio hir-gyfnod.*

- *Byddwn yn annog teneuo coetir er mwyn cynyddu hyblygedd rheolaeth yn y dyfodol er mwyn creu mwy o amrywiaeth o fewn coetiroedd ac i greu cynhyrchiad pren mwy gwerthfawr.*

- *Byddwn yn sicrhau y sefydlir dulliau teg a chyfiawn er mwyn adnabod buddion cymdeithasol ac amgylcheddol o goetiroedd.*

- *Byddwn yn parhau i fonitro cyflwr y coetir, gan ddarparu gwybodaeth ar gyfer rheolwyr ar ganlyniadau gweithgareddau rheoli.*

**2.3.2 Symud tuag at ddefnydd uwch o systemau gorchudd di-dor**

Mae dadl gref o blaid symud i ffwrdd o blanhigfeydd un oedran a defnyddio systemau clir-dorri. Mae clir-dorri a ddilynir gan ail-blannu, yn system goedwrol a ddefnyddir ar llawer o ystâd y Cynulliad Cenedlaethol, ond byddwn yn archwilio'n llawn buddion posibl defnyddio systemau eraill nad sydd yn cynnwys clirdorri arwynebeddau helaeth ac sydd yn dibynnu'n fwy ar atgynhyrchu naturiol. Nid yw gorchudd di-dôr (lle mae coedwraeth effaith isel yn diogelu priddoedd ac yn cadw ymddangosiad coetirol) yn bosibl ym mhob achos, ond mae ein hamodau safle ffafriol yn caniatáu i ni ddefnyddio'r dull hwn o reolaeth yn y rhan fwyaf o goetiroedd cysgodol. Yn bennaf, mae coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yn blanhigfeydd o gonifferau ar safleoedd a fu gynt yn dir agored. Er bod y coetiroedd hyn yn aml yn fwy amrywiol na'r tir uchel y'u plannwyd arno, maent fel arfer yn llai amrywiol na'r rhai mewn perchnogaeth breifat a byddant yn buddio'n bennaf o gael eu trosi i amgylchedd coetir mwy sefydlog.

- *Dros yr ugain mlynedd i ddod byddwn yn anelu i drosi o leiaf hanner coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol i orchudd di-dor lle'n ymarferol ac annog trosi cyffelyb mewn coetiroedd yn y sector preifat.*

- *Byddwn yn parhau i gasglu gwybodaeth ynglýn â systemau gorchudd di-dor a sut i reoli'r systemau hyn orau am yr ystod o fuddion y mae'r gymdeithas yn eu mynnu.*

| |
|---|
| Erbyn 2002, byddwn yn sefydlu tri chylch arbrofi helaeth yng Nghymru i arloesi i technegau am drosi i systemau gorchudd di-dor ac I gasglu gwybodaeth i gyfeirio trosi ym mhob math o goetir yn y dyfodol. |

**2.3.3 Dod o hyd i safleoedd addas ar gyfer coed a choetiroedd newydd**

Mae coed a choetiroedd yn gorchuddio rhyw 14% o arwynebedd tir Cymru, mewn cymhariaeth â chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd o 32%. Maent yn cynnig ystod o fuddion i'r gymdeithas a gellid cynyddu hyn trwy ehangiad priodol. Gallai coetiroedd newydd gysylltu a diogelu olion anamnewidiadwy ein coetiroedd hynafol, hanner naturiol, darparu cysgod ar ffermydd a helpu arall-

gyfeirio busnesau amaethyddol, gan gyfrannu tuag at gyflenwad cynaliadwy o bren ar gyfer diwydiannau bach a mawr. Mae coetiroedd newydd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i adfer y tirweddau a adawyd gan fwyngloddio neu weithgareddau diwydiannol eraill y gorffennol, gan ail-sefydlu dolennau â chynefinoedd naturiol o gwmpas. Gall coetiroedd a choed newydd ddod â buddion mewn ardaloedd trefol, gan helpu cynnal ansawdd yr awyr a chreu safleoedd ar gyfer cartrefi, masnach a diwydiant.

- *Byddwn yn annog tirfeddianwyr a rheolwyr i chwilio am gyfleoedd am ehangiad priodol o goetir, gan geisio mwyafu gwerth coetiroedd i'r gymdeithas.*

- *Byddwn yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a pherchnogion tir, gan annog y defnydd o goed a choetiroedd i wella ansawdd awyr a thirweddau trefol.*

**2.4 Cymru fel lleoliad i ddiwydiannau coedwig o reng byd-eang**

Yn yr un modd â diwydiannau cynradd eraill megis amaethyddiaeth, mae coedwigaeth yn wynebu amgylchiadau masnachu anodd iawn gyda phrisiau isel am bren ar y farchnad fyd-eang. Ond mae busnesau trin pren yn parhau i fuddsoddi yng Nghymru a gallwn helpu cynyddu gwerth coedwigoedd Cymru fel ffynhonnell o bren ar gyfer prosesu, ar raddfa fechan yn ogystal ag ar raddfa fawr. Mae rhyw 4,200 o swyddi sydd yn creu £61 miliwn o incwm defnyddiadwy, yn dibynnu ar y diwydiant pren gartref (Astudiaeth Lluosogydd Coedwigaeth Cymru 1999). Mae llawer o'r swyddi hyn yn gysylltiedig â'r ardaloedd gwledig ac maent yn gyfranwyr sylweddol i economïau lleol.

Amcangyfrifodd yr un astudiaeth mai £400 miliwn y flwyddyn yw allgynnyrch gros diwydiant coedwigaeth Cymru. Mae'r allgynhyrchion hyn yn deillio o ystod gyfan y diwydiannau, o gwmnïau helaeth rhyngwladol sydd yn cynhyrchu pylp pren, papur a bwrdd panelu, i fusnesau teuluol bychain yn gwneud pyst a dodrefn i'r ardd. Trwy annog mentergarwch, cydweithrediad busnes a thrwy hyrwyddo dylunio da ar dros holl ystod y cynhyrchion byddwn yn helpu creu a chynnal swyddi trin pren medrus a mwyhau enw da Cymru am gynhyrchion o ansawdd uchel yn defnyddio pren caled a phren meddal o goetiroedd cynaliadwy. Creir swyddi hefyd mewn canlyniad i ddefnydd uwch o'n coetiroedd ar gyfer twristiaeth a hamdden.

Rhagwelir y bydd cyfanswm cynhyrchiant pren yng Nghymru yn cynyddu'n sylweddol erbyn diwedd y degawd nesaf wrth i goedwigoedd aeddfedu. Bydd llawer o'r cynydd hwn yn dod o goetiroedd coniffer a blannwyd gan y sector preifat yn ystod y 1960au, 70au ac 80au. Bydd mwyafu gwerth y coedwigoedd hyn i'r economi yn dibynnu i raddau helaeth ar ymdrechion proseswyr pren ac ar dechnegau blaengar am brosesu'r pren hwn. Yn y dyfodol bydd rhaid i ni ganolbwyntio ar wella ansawdd y pren a dyfir, trwy dalu sylw i ddewis rhywogaethau, teneuo a gweithgareddau rheoli eraill. Dim ond trwy gadw adnodd hyblyg y bydd tyfwyr Cymru yn gallu cystadlu yn y dyfodol. Dyma'r amcanion allweddol :

- **Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ddiwydiannau coedwig Cymru.**
- **Datblygu'r cadwyn cyflenwad pren, datblygiad a marchnata cynhyrchion.**

- **Darparu cefnogaeth i goetiroedd fferm a’r economi gwledig ehangach; a hefyd**
- **Meithrin datblygiad ynni adnewyddadwy ar sail pren.**

### 2.4.1 Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ddiwydiannau coedwig Cymru

Yr allwedd i gyrraedd y nod hwn yw cyflawni’r Strategaeth Datblygiad Economaidd Cenedlaethol trwy Asiantaeth Datblygu Cymru (ADC/WDA) a phartneriaid eraill. Bydd mwyafu effaith cyllid strwythurol yr UE o dan Amcanion 1, 2 a 3 yn bwysig yn y cyfnod byr. Mae rhan i bob diwydiant coedwig ei chwarae wrth gyfrannu tuag at olud economaidd y wlad, o feithrinfeydd coedwig trwy reolaeth coetir i gynaeafu, cludo a phrosesu ar bob graddfa o fasnachwyr unigol i gwmnïau rhyngwladol. Mae angen gwahanol lefelau o gefnogaeth ar bob un o’r busnesau hyn er mwyn eu galluogi i gynllunio eu gweithgareddau a datblygu mewn ffordd gynaliadwy.

- *Byddwn yn ymdrechu i gynyddu hyfywedd cystadleuol ein diwydiannau coedwig, gan weithio mewn partneriaeth â’r diwydiant i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu ar draws y sector diwydiannol.*

- *Byddwn yn datblygu a hyrwyddo hygyrchedd systemau am gefnogaeth a hyfforddiant busnes.*

### 2.4.2 Datblygu cadwyn y cyflenwad pren, datblygiad a marchnata cynhyrchion.

Ceir llawer o fanteision i economi Cymru trwy gyflogaeth uniongyrchol ac effeithiau lluosogol gwaith coetir. Un o’r ffactorau sydd yn cyfyngu ar ddatblygiad yw diffyg hyder yng nghadwyn y cyflenwad pren. Yn aml bydd llawer o wahanol fusnesau yn trin darn penodol o bren cyn iddo gael ei droi yn gynnyrch gorffenedig. Mae’r busnesau hynny sydd yn ffurfio’r ddolen gyntaf yn y gadwyn o dan pwysau ariannol difrifol oherwydd y cwymp mewn prisiau pren yn hwyr yn y 1990au. Y ffactor allweddol arall mewn llwyddiant busnes yw marchnata cynhyrchion. Rhaid i gynhyrchion pren gystadlu mewn marchnad ryngwladol ac mae nodweddion arbennig y cynnyrch neu’r gwasanaeth a gynigir gan bob busnes yn dyngedfennol am lwyddiant.

- *Byddwn yn parhau i gefnogi diwydiant trwy ddod â’r cyfeintiau rhagweledig o bren i’r farchnad o goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol, i helpu creu hyder ar gyfer datblygiad diwydiannol.*

- *Byddwn yn defnyddio technegau marchnata am bren o goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn rhoi sicrwydd tymor hir i gwsmeriaid a chyflenwyr, fel y bydd modd iddynt fuddsoddi mewn technolegau a systemau diogel ac effeithlon.*

- *Byddwn yn gweithio gyda chynrychiolwyr diwydiant i gynnal a datblygu busnesau yng nghadwyn y cyflenwad pren, gan helpu darparu gwybodaeth ar gyfaint ac ansawdd y pren sydd ar gael, ac annog prosesu pren o darddiad Cymreig yng Nghymru.*

- *Byddwn yn helpu hyrwyddo’r defnydd o bren ac annog busnesau i ddatblygu gwerth ychwanegol*

*lleol ac i farchnata eu cynhyrchion yn fwy effeithiol, gan ddefnyddio delwedd lân werdd Cymru i gyflwyno delwedd o gynaliadwyedd.*

| |
|---|
| Gall datblygiad grwp cwlwm o ddiwydiannau coedwig yn harneisio egnïau trwy gydol y sector i gefnogi a datblygu busnesau. Byddwn yn gweithio gyda Fforwm Pren Cymru a busnesau coedwigaeth i ddatblygu proses o'r math gan baratoi cynllun gweithredu ar gyfer grwp cwlwm i Gymru a'r Gororau. Ein nod yw cyhoeddi cynllun gweithredu erbyn 2002 |

### 2.4.3 Darparu cefnogaeth i goetiroedd fferm a'r economi gwledig ehangach

Mae tua chwarter arwynebedd coetir Cymru ar ffermydd. Gan amlaf mae'r coetiroedd hyn yn rhai brodorol o faint bach, gyda mynediad gwael ac ansawdd gwael o bren, ond mae ganddynt werth amgylcheddol uchel. Gall rheoli'r coetiroedd hyn yn ofalus fel adnodd fferm gyfrannu tuag at incwm y fferm ac arall gyfeirio mentrau amaethyddol yn ogystal â chynnig buddion ychwanegol i'r dirwedd ac i'r amgylchedd. Bydd gan goetiroedd fferm yn ogystal â choetiroedd bychain mewn perchnogaeth arall ran allweddol mewn datblygiad gwledig a bydd rhaid eu hintegreiddio gyda'r holl raglenni cymdeithasol ac economaidd amaethyddol a gwledig ar draws y Cynulliad. Mae cefnogi busnesau cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig yn amcan pwysig ar gyfer y strategaeth hon.

- *Byddwn yn gweithio'n agos â'r sector ffermio, gan ddisgwyl i'r Fforwm Coetir sefydlu grwp testun coetir fferm, gan adeiladu ar yr arbenigedd a ddatblygwyd yng Nghymru yn hwyr yn yr 20fed Ganrif.*

- *Byddwn yn annog ffermwyr i arall gyfeirio eu busnesau amaethyddol trwy Ddolen Ffermio, gan gynnig gwybodaeth ar reolaeth coetir, contractio a datblygu prosesu pren ar raddfa fechan.*

- *Byddwn yn helpu ffermwyr wneud y defnydd gorau o adnoddau coetir fferm ar gyfer cysgod i dda byw ac ar gyfer cynhyrchion pren at ddefnydd ar ffermydd, integreiddio'r coetiroedd yn well yn y busnesau fferm ac yn y dirwedd.*

- *Byddwn yn helpu Coed Cymru er mwyn parhau i gyflwyno cefnogaeth i ffermwyr, pleidio achos arferion gorau mewn rheolaeth coetir llydandail a defnyddio astudiaethau achos o ffermydd go iawn fel enghreifftiau i eraill.*

### 2.4.4 Meithrin datblygiad ynni adnewyddadwy ar sail pren.

Mae datblygu sector ynni-adnewyddadwy gryf yng Nghymru'n darged allweddol i'r Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'n cyfrifoldeb i ymateb i newid hinsoddol y byd. Mae gan bren nifer o fanteision fel tanwydd, yn enwedig lle mae'r tanwydd pren hwnnw'n gynnyrch ychwanegol o reoli coetir. Credwn y gall datblygiad technolegau tanwydd pren wneud cyfraniad pwysig i gynhyrchiad ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Gall datblygu adnoddau i losgi pren mewn lleoliadau addas lle mae galw parhaus am

wres megis cyfleusterau cymunedol, ysbytai neu ddiwydiant ddarparu pwer a gwres cefndir. Bydd gweithfeydd gwres a phwer cyfun o'r math yn cyfrannu tuag at ein targed o fwyafu effeithioldeb ynni yng Nghymru.

- *Byddwn yn integreiddio ynni o danwydd pren yn strategaeth ynni adnewyddadwy'r Cynulliad Cenedlaethol, gan sicrhau iddo gael ei gydnabod fel tanwydd allweddol.*

- *Byddwn yn gweithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu gwybodaeth a chyngor i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ynni adnewyddadwy ar sail pren.*

### 2.5 Amgylchedd amrywiol ac iach

Gall coetiroedd â rheolaeth dda cynnig canlyniadau amrywiol yn ogystal â bod yn enghreifftiau o gynaliadwyedd. Er mwyn cyrraedd cynaliadwyedd go iawn, rhaid cynnal neu wella'r adnoddau materol a biolegol o fewn coedwigoedd, megis dwr, pridd, planhigion a chreaduriaid. Mae coetiroedd yn cynnig cynefinoedd i bobl eu mwynhau hefyd a gallant harddu'r dirwedd, gan gynyddu posibiliadau am dwristiaeth mewn ardaloedd gwledig. Rydym pob un ohonom yn dibynnu ar yr amgylchedd, ac mae iechyd yr amgylchedd yn ollbwysig am ddatblygiad cymunedau gwledig a threfol. Ni ellir ystyried cynefinoedd coetirol ar wahân; maent yn agos eu cysylltiadau â defnyddiau tir eraill a gall rheolaeth y coetiroedd gael effeithiau sylweddol ar dir cyffiniol ac i'r gwrthwyneb. Dyma'r amcanion allweddol am gyflawni amgylchedd iach ac amrywiol:

- **Cadw a mwyhau bioamrywiaeth ein coetiroedd;**
- **Cadw a mwyhau tirweddau Cymru; a hefyd**
- **Integreiddio coetiroedd yn well gyda rheolaeth eraill o gefn gwlad.**

#### 2.5.1 Cadw a mwyhau bioamrywiaeth ein coetiroedd

Mae coetiroedd Cymru'n cynnwys rhai o'r cymunedau planhigion ac anifeiliaid mwyaf amrywiol mewn unrhyw gynefin. Mae ein coetiroedd hanner-naturiol hynafol yn asedion unigryw ac mae coetiroedd derw ein hucheldiroedd o bwys rhyngwladol. Mae gan goetiroedd a blannwyd yn ddiweddar ac sydd ag olion llystyfiant hanner-naturiol werth bioamrywiaethol uchel neu'r potensial am hynny. Gellid dangos llwyddiant y strategaeth hon os gallwn wella ansawdd y coetiroedd hyn, gan gysylltu ac ehangu eu rhwydweithiau o gynefinoedd heb beryglu cynefinoedd gwerthfawr eraill neu nodweddion hanesyddol. Mae'r rhagolygon o newid hinsoddol byd-eang yn mynnu i ni ystyried gwydnwch ein cynefinoedd coetirol fel y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion cadwraethol ar gynefinoedd a fydd yn gynaliadwy yn y cyfnod hir.

- *Byddwn yn cynyddu ansawdd coetiroedd brodorol ar gyfer bywyd gwyllt ac yn gweithredu targedau yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth am eu hadfer a'u hehangu, gan greu dolennau rhwng coetiroedd candryll.*

- *Byddwn yn cynyddu bioamrywiaeth coetiroedd coniffer trwy ddefnyddio systemau gorchudd di-dor, datblygu strwythurau aml-oedran trwy atgynhyrchu naturiol ac ymgorffori rhywogaethau brodorol.*

- *Byddwn yn cynyddu arwynebedd coetiroedd brodorol, gan dargedu ehangiad a chysylltiad coetiroedd presennol ac ymgorffori'r syniad o gynyddu arwynebedd craidd cynefinoedd coetiroedd brodorol.*

- *Byddwn yn annog perchnogion i ymgorffori gwahanol gynefinoedd megis rhostir a chors o fewn coetiroedd, er mwyn mwyafu'r cysylltiadau rhwng mathau tebyg o gynefinoedd.*

- *Byddwn yn cynyddu'r arwynebedd o goetir sydd yn cyrraedd ardystiad amgylcheddol annibynnol i safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol.*

### 2.5.2 Cadw a mwyhau tirweddau Cymru

Mae gan goed a choetiroedd effaith weledol uchel ac maent yn elfennau allweddol ein tirweddau mwyaf annwyl. Mae coetiroedd yn cyfrannu hefyd tuag at ansawdd ein bywydau trwy harddu cyffiniau ein trefi, dinasoedd ac ardaloedd diwydiannol. Gall coed a choetiroedd helpu adfer tirweddau yn dilyn mwyngloddio a gweithgareddau diwydiannol yn y gorffennol. Coleddir treftadaeth gyfoethog archeolegol mewn coetiroedd, tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi am ei gyfraniad tuag at ein cymdeithas. Ond mae tirwedd yn ddeinamig ac yn newid yn barhaus. Rhaid i ni sicrhau bod ein coetiroedd yn harddu'r dirwedd trwy gydnabod eu hanes a thrwy ddefnyddio egwyddorion dylunio cyfoes wrth gynllunio rheolaeth ac amnewid planhigion yn dilyn torri yn y dyfodol.

- *Byddwn yn defnyddio coetiroedd i adfer y tirweddau mewn ardaloedd yr effeithwyd arnynt gan fwyngloddio a gweithgareddau diwydiannol eraill yn y gorffennol.*

- *Byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredu i flaenoriaethu gwaith mewn parciau hanesyddol a thirweddau ac ehangu'r wybodaeth ar nodweddion hanesyddol pwysig o fewn coetiroedd.*

- *Byddwn yn parhau i ailstrwythuro planhigfeydd sydd eisoes yn bodoli, gan annog perchnogion i chwilio am gyfleoedd I adfer llystyfiant naturiol, gan waredu coetiroedd lle'n briodol.*

### 2.5.3 Integreiddio coetiroedd yn well gyda rheolaeth eraill o gefn gwlad.

Gall rheolaeth coetir gael effaith sylweddol ar gynefinoedd cyffiniol. Gall yr effeithiau hyn fod yn adeiladol lle, er enghraifft, y bydd coetiroedd yn dal ac yn cloi llygreddyddion i fyny, neu yn andwyol lle mae coetiroedd yn llochesau i anifeiliad sydd yn gweithredu fel plâu ar dir cyffiniol. Trwy ddeall y rhyngweithrediadau hyn a gweithio gydag eraill, byddwn yn ceisio mwyafu'r buddion a lleihau'r gwrthdrawiadau. Gall coetiroedd gael effaith pwysig ar amgylchedd y dwr. Gall dyluniad a rheolaeth da o goetiroedd gyfrannu tuag at wrthdroi asideiddio nentydd, mwyhau bioamrywiaeth nentydd a

dylanwadu ar lifiant dwr lle mae coetiroedd yn arwynebedd sylweddol o fewn dalgylch.

- *Byddwn yn defnyddio cynllunio rheolaeth dalgylchoedd i ddatblygu'r rhan y gall coetiroedd eu chwarae wrth reoli dwr a lleihau'r peryglon o lifogydd.*

- *Byddwn yn gweithio i arbed colledion pellach o goetir hynafol a hanner naturiol, gan adeiladu ar y Rhestriad Cenedlaethol o Goed a Choedydd er mwyn gwella'n gwybodaeth o statws coetiroedd brodorol yng Nghymru a helpu eu diogelu.*

- *Byddwn yn gweithio i ddatblygu dolennau priodol rhwng coetiroedd a rheolaeth cefn gwlad ehangach trwy gyfrwng Tir Gofal a chynlluniau amgylcheddol eraill.*

- *Byddwn yn parhau i gefnogi ymchwil wyddonol i'r rhyngweithiadau rhwng coetiroedd a defnyddiau tir eraill yng nghyd-destun y cefn gwlad ehangach, i ddatblygu ein polisïau ar gyfer yr amgylchedd.*

### *2.6 Twristiaeth, hamdden ac iechyd*

Mae coed a choetiroedd yn amlwg yn y dirwedd, yn enwedig mewn rhai o rannau mwyaf prydferth Cymru, gan chwarae rhan hanfodol mewn twristiaeth. Mae coetiroedd hefyd yn rhoi strwythur i'r dirwedd a chefndir i lawer o fentrau twristiaeth. Maent hefyd yn lleoedd i ymweld â nhw ynddynt eu hunain. Ceir mwy nag 11 o filiynau o ymweliadau â choetiroedd Cymru bob blwyddyn, ac mae'r niferoedd yn codi gyda'r cynnydd yn y galw am hamdden awyr agored.

Gall defnyddio coetiroedd am ymarfer corff a mwynhad gael effeithiau buddiol ar iechyd y genedl. Mae coetiroedd yn cyfrannu'n adeiladol tuag at iechyd emosiynol a chorfforol, trwy fynediad cyhoeddus a hamdden. Dyma brif amcanion hyrwyddo twristiaeth ac iechyd:

- **Defnyddio coetiroedd i helpu creu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr; a hefyd**
- **Hyrwyddo iechyd trwy fynediad i goetir i bob cymuned.**

#### 2.6.1 Defnyddio coetiroedd i helpu creu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr

Mae coed a choetiroedd yn chwarae rhan bwysig wrth greu delwedd ddeniadol o Gymru. Mae defnyddio coed fel cefndir i gyfleusterau ac adnoddau i dwristiaid yn mwyhau ansawdd profiad yr ymwelwyr. Mae lle hefyd i ddatblygu mwy o lety i dwristiaid mewn coetiroedd priodol, ac am ddefnydd uwch o goetir fel lleoliad cyfleusterau hamdden.

- *Gan ddefnyddio partneriaethau sydd eisoes yn bodoli, byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o goetiroedd er mwyn datblygu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr.*

- *Byddwn yn cefnogi datblygiad crefftiau sydd yn defnyddio pren fel rhan o brofiad yr ymwelwyr,*

*yn ogystal â chynnig cynhyrchion i'r diwydiant twristiaeth.*

- *Byddwn yn annog y defnydd o goetir fel rhan o gyd-destun datblygiadau twristiaeth.*
- *Byddwn yn hyrwyddo datblygiad hamdden arbenigol mewn coetiroedd, gan gynnwys gwylio bywyd gwyllt mewn mannau a ddynodir yn briodol, a gweithgareddau arluniol yn ogystal â chwaraeon mwy swnllyd a chorfforol.*
- *Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Croeso a'r awdurdodau lleol i adnabod lleoedd addas yng Nghymru am ddatblygu llety gwyliau coedwig.*

PICTURE

Mae datblygu llwybrau beicio mynydd yng nghoetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghoed-y-Brenin wedi creu cyfleusterau awyr agored a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd yn dod ag amcangyfrif o £5 miliwn y flwyddyn i mewn i'r economi lleol.

**2.6.2 Hyrwyddo iechyd trwy fynediad i goetir i bob cymuned.**

Gall coetiroedd chwarae rhan wrth gynnal lles corfforol ac emosiynol unigolion a chymunedau. Mae defnyddio coetiroedd er mwynhad tawel yn ogystal ar gyfer chwaraeon a hamdden yn ffordd effeithiol o gadw'n heini ac yn iach. Gall cerdded mewn coetiroedd fod yn effeithiol wrth adfer ar ôl salwch.

Mae'n bosibl y bydd mynediad i goetiroedd am ymarfer corff a mwynhad yn cael effeithiau buddiol ar iechyd y genedl. Mae hyrwyddo mynediad i goetiroedd fel rhan o fynediad ehangach i gefn gwlad yn bwysig hefyd os yw'r buddion llawn i'w cael, a bydd coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i chwarae rhan wrth ddiwallu'r galw am adnoddau hamdden i'r cyhoedd. Ond anogir perchnogion coetir eraill hefyd i ddarparu mynediad gwirfoddol i'r cyhoedd mewn ffordd gydlynol. Mae gan y Cynulliad ymrwymiad i ymestyn mynediad gan y cyhoedd a bydd yn monitro'n agos effeithiolrwydd darpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a ddaeth i mewn yn ddiweddar.

- *Byddwn yn ymestyn mynediad i goetiroedd, yn enwedig i gymunedau difreintiedig, gan ddefnyddio dyluniadau da a chyfranogiad cymunedol, er mwyn helpu trechu syniadau rhai pobl o berygl pan yn defnyddio coetiroedd ar yr ymylon trefol.*
- *Byddwn yn cefnogi ymchwil i helpu dod o hyd i well ddealltwriaeth o fuddion coed a choetiroedd i iechyd.*
- *Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio coed a choetiroedd mewn lleoliadau trefol er mwyn mwyafu lles emosiynol a chorfforol.*

- *Byddwn yn parhau i annog ymwelwyr i holl goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael yn egnïol.*

---

## RHAN 3: GWEITHREDU'R STRATEGAETH

### 3.1 Gweithredoedd a cherrig milltir

Mae'r rhan hon yn edrych ymlaen at weithrediad y strategaeth. Mae pob un o'r amcanion strategol yn Rhan 2 yn gam rhagbaratoadol pwysig sydd yn gosod y cyfeiriad am y rhaglenni gweithredu. Bydd angen ystod o ganlyniadau ar wahân ar gyfer pob rhaglen y mae angen targedau mynegyddol ar eu cyfer sydd â disgrifiad clir ac yn fesuradwy. Un o orchwylion cyntaf y *Fforwm Coetir* fydd galw grwp at ei gilydd i ddatblygu mynegyddion perfformiad i'r partneriaid eraill gyflwyno adroddiadau rheolaidd yn eu herbyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod pob rhan o'r strategaeth yn cael ei harolygu a diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r tabl isod yn gosod allan mynegyddion drafft rhagbaratoadol ac yn rhestru partneriaid allweddol posibl a fydd yn atebol i'r *Fforwm Coetir* am gasglu a chrynhoi'r ystadegau ar gyfer y rhaglen gweithredu gyfan neu ran ohoni.

| **Amcan y Strategaeth** | **Partneriaid arweiniol posibl** | **Mynegyddion Drafft posibl** |
|---|---|---|
| Coetiroedd i Bobl | Comisiwn Coedwigaeth, Awdurdodau Lleol a Chyrff Anllywodraethol | Nifer o grwpiau cymunedol yn ymwneud â rheolaeth coetir |
| Mwy a gwell goetiroedd | Comisiwn Coedwigaeth, Diwydiant a Chyrff Anllywodraethol | Cyfanswm arwynebedd coetir.<br>Chyfanswm coetir â chynllun rheoli cymeradwyedig<br>Cyfanswm coetir ag Ardystiad annibynnol. |
| Cymru fel lleolaid am ddiwydiannau coedwig o ansawdd byd-eang | Awdurdod Datblygu Cymru, Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol, Comisiwn Coedwigaeth a Diwydiant | Cyfaint y pren a gynaeafwyd a phroseswyd.<br>Nifer o bobl a gyflogir.<br>Iechyd busnes |

| | | |
|---|---|---|
| Amgylchedd iach ac amrywiol | Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyrff Anllywodraethol, Comisiwn Coedwigaeth, Adran yr Amgylchedd, Cadw | Arwynebedd coetir brodorol mewn cyflwr boddhaol. Cyrraedd targedu Cynllun Gweithredu ar Fio-amrywiaeth |
| Twristiaeth, hamdden ac iechyd | Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru Awdurdodau Lleol, Cadw | Nifer o ymweliadau â choetir. Nifer o fusnesau twristiaeth yn defnyddio delweddau coetirol mewn hysbysebion |

Mae angen ystyriaeth ofalus o’r gorchwyl hwn fel y bydd modd defnyddio’r un ystadegau am fonitro hir-gyfnod. Er bod coedwigaeth yn ddefnydd tir hir-gyfnod, mae wedi dioddef yn y gorffennol gan ddiffyg cysondeb mewn rhagddisgrifiadau mesur. Yn aml yn y gorffennol, ni fu’n bosibl cymharu data arolwg o’r naill gyfnod â’r llall gan fod yr hyn a fesurwyd, neu’r ffordd a ddefnyddiwyd I’w mesur, wedi newid yn sylweddol.

Mae maint, cyfansoddiad a chyflwr y coetir, cymuned neu gynnyrch yn debygol o fod yn fynegyddion mesur allweddol. Dylai’r mynegyddion hyn fod yn gydnaws â’r mynegyddion a ddewiswyd i fesur Cynllun Datblygiad Cynaliadwy Cymru cyn belled â phosibl, ac am fesuriad yn erbyn Safon Goedwigaeth y DU. Lle’n bosibl, dylai mynegyddion fod â’r un nodweddion mesuradwy a gesglir eisoes at ryw ddiben arall.

Disgwylir i bob corff partnerol yn y *Fforwm Coetir* osod eu hymrwymiadau eu hunain allan mewn cynllun gweithredu yn erbyn un neu fwy o’r rhaglenni am weithredu. Bydd y *Fforwm Coetir* hefyd yn monitro’r ystod o weithredoedd a argymhellir ac yn adrodd yn ôl i’r Cynulliad Cenedlaethol ar unrhyw fylchau strategol, ac ar gynnydd tuag at y cerrig milltir ar gyfer y prif amcanion. Bydd gan bob prif raglen am weithredu fynegydd strategol cryno unigol. Gall y mynegyddion cryno hyn fod yn gyfuniad o nifer o is-fynegyddion ar gyfer gweithredoedd unigol, neu gallant fod yn fynegydd dirprwyol o gyflwr yr holl gyfres o weithredoedd.

### 3.2 Gwerthuso ac Arolygu

Er y disgwylir i’r weledigaeth a osodir allan yn y strategaeth hon barhau ym mhell i’r dyfodol, bydd y rhaglenni gweithredu’n newid wrth i waith gael ei gwblhau, ac wrth i ddylanwadau allanol newid y blaenoriaethau am weithredu. Adeiladwyd proses o adborth yn y strategaeth o’r cychwyn cyntaf fel y gellir canolbwyntio ymdrechion ar gyflawni rhaglenni yn hytrach nag ail-adrodd yn ddi-angen y broses o ddatblygu strategaeth newydd. Bydd y *Fforwm Coetir* yn ymgymryd ag arolwg cyhoeddus cyfnodol o flaenoriaethau strategol er mwyn ymateb i destunau diddordeb a disgwyliadau cyfnewidiol pobl Cymru a chyfranogwyr eraill.

**RHAN 4: Esboniad a Thystiolaeth**

Mae'r rhan hon yn gosod allan y cefndir i ddatblygiad y strategaeth, pam yr ystyrir yn angenrheidiol a sut yr ymgynghorwyd â phobl ar ei chynnwys.

**Deall y cyd-destun: hanes coetiroedd yng Nghymru.**

**Cyn-hanes coetiroedd Cymru**

Mae newidiadau yn yr hinsawdd a datblygiad adnoddau naturiol gan ddynol ryw wedi arwain at anwadaliadau ym maint a natur coetiroedd Cymru. Ar anterth y rhewlifiant diwethaf, rhyw 18,000 o flynyddoedd yn ôl, gorweddai bron y cyfan o dir Cymru o dan haenen drwchus o iâ, gyda lefel y môr tua 100 metr yn is na un heddiw, gydag ymyl y tir yn bell allan i mewn i'r môr presennol. Tua 14,000 o flynyddoedd yn ôl, dechreuodd yr hinsawdd wella, yr haenen o iâ yn ymdoddi a lefel y môr yn codi. Roedd y tir yn agored ac yn foel, yn debyg i dyndra'r arctig. Y rhywogaethau coetirol cyntaf i ymledu dros y glaswelltiroedd llwm hyn oedd ffawydd a meryw. Erbyn 9,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd yr amgylchiadau'n dechrau addfwyno. Cyll oedd yn cymryd lle'r merwyn, gyda choetiroedd derw a llwyfen yn datblygu yn Ne Cymru, a choetiroedd cymysg o bedw, pinwydd a derw ar yr ucheldir. Wrth i'r tywydd wella, ymledodd ynn a palalwyf i Gymru o'r dwyrain a dechreuodd gwern dyfu o gwmpas y tiroedd gwlybion. Symudodd ffin y coed yn raddol i fyny'r llethrau. Erbyn 6,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd yr hinsawdd yn well na hinsawdd heddiw. I raddau helaeth gorweddai'r tir o dan orchudd o goetiroedd aeddfed o goed llydandail cymysg, y Wig, gyda rhywfaint o binwydd yn dal i dyfu ar y bryniau. Roedd y prif diroedd agored yn nyffrynnoedd yr afonydd, ar yr arfordir, y rhostiroedd a'r mynyddoedd lle y helodd a chasglodd pobl fesolithig Cymru eu bwyd.

O hynny ymlaen, daeth dylanwad dyn ar y coetiroedd yr un mor bwysig â newidiadau i'r hinsawdd. Daeth pobl neolithig, yr amaethwyr cyntaf, i Gymru tua 5,500 o flynyddoedd yn ôl, yn clirio coed o'r caeau ar y priddoedd ysgafnach. Arweiniodd cyrhaeddiad bwyeill efydd a chynnydd yn y boblogaeth tua 4,000 o flynyddoedd yn ôl at gyflymiad wrth glirio'r coetiroedd ac erydiad sylweddol o bridd. Ehangodd aneddau i mewn i'r tiroedd uchel. Torrwyd y coed ac arweiniodd amaethu cyfnod byr at ddirywiad o'r priddoedd, gan symbylu tyfiant y mawn a welir bellach fel rhan nodweddiadol o'r ardaloedd hyn. Dechreuodd nifer o rywogaethau o goed megis palalwyf, llwyfen a phinwydd ddirywio'n ddifrifol.

O dua 3,000 o flynyddoedd yn ôl, cafwyd dirywiad yn yr hinsawdd, tymereddau is a glawiad uwch. Ar ddechrau Oes yr Haearn roedd yr aneddfeydd ar lawer o ucheldir Cymru wedi'u gadael a dwyshawyd amaethyddiaeth ar dir is gyda chynydd mewn clirio coetir a thrin priddoedd clai trymach. Erbyn y 4ydd Ganrif OC, roedd poblogaeth y Gymru Rhufeinig yr un mor uchel ag y byddai yn union cyn y Pla Du yn y 14eg Ganrif a hefyd ar ddiwedd cyfnod y Tuduriaid. Mae'n bosibl yr oedd patrwm y tir amaeth, pori a choedwig yn debyg yn fras i'r hyn a welir heddiw. Roedd coetir a chynnyrch y coetir wedi dod yn adnoddau gwerthfawr a oedd angen rheolaeth ofalus yn hytrach na ddatblygiad pellach.

### Rheolaeth coetir traddodiadol

Er gwaetha'r amrywiadau mewn hinsawdd, poblogaeth a dulliau amaethyddol, buasai maint y gorchudd o goetir yng Nghymru yn gyson am gyfnod o sawl canrif hyd at ddechrau'r 19eg Ganrif. Datblygodd dulliau nodweddiadol i reoli coetir yr un mor ofalus ag unrhyw adnoddau amaethyddol eraill. Roedd *torri coed copi* yn golygu torri coed llydandail i lawr i'w bonion ac yna cynaeafu'r blaguron a atgynhyrchodd mewn cylchrediad. Dewiswyd rhywogaethau ac oedrannau penodol o goed at ddibenion penodol: gwneud basgedi, clwydi, golosg, coed tân, coesau offer, dodrefn ac yn y blaen. Mewn coedydd copi cadwyd nifer o goed i dyfu i aeddfedrwydd, gan docio'r blaguron ar yr ochrau i roi boncyffion syth, hir. Roedd y coed 'hirgyff' hyn yn werthfawr iawn a defnyddiwyd nhw i adeiladu tai, llongau, pontydd ac adeiladau pwysig. Byddai'r brenin neu arglwyddi mawr yn eu rhoi yn anrhegion i'w hoff ddeiliaid. Roedd *barbro* neu *docio'n* gyffredin hefyd, lle y torrwyd coed uwchben lefel y pen (gwelir hyn gyda helyg hyd heddiw) fel y byddai modd i anifeiliad bori ar y glaswellt o dan y coed ac felly cael dau gnwd o'r un darn o dir.

Yn y flwyddyn 930, soniodd cyfraith Hywel Dda am werth coed, a chanmolwyd Gruffudd ap Cynan (bu farw 1137), Tywysog Gwynedd, am blannu coedydd. Crëwyd parciau gan lawer o arglwyddi grymus a mynachlogydd yn ystod y Canol Oesoedd gyda muriau neu balisau a ffosydd i'w hamddiffyn. Byddai rhai o'r parciau hyn gymaint â 2,000 o erwau (800ha) mewn maint ac yno llawn gymaint i ddiogelu'r coed â chadw'r helfilod i mewn. Datblygodd llawer o'r parciau hyn yn barciau tirweddedig y 18fed Ganrif. Roedd coedwigoedd y Canol Oesoedd yn fwy byth, er enghraifft roedd Fforest Fawr Brycheiniog cymaint â 40,000 o erwau (16,000ha) o faint. Nid oedd y rhain i gyd o dan orchudd o goed, ond yn hytrach gwarchodfeydd hela'r brenin gyda deddfau coedwig arbennig.

Cynoddodd y pwysau ar goetiroedd o ddiwedd yr Oesoedd Canol ymlaen i gael mwy o bren am adeiladu a golosg am ddiwydiannau newydd megis cynhyrchu haearn a thoddi plwm a chopor. Ond er gwaethaf y cynnydd hwn yn y galw, parhaodd arferion coedwraeth i gadw'r cyflenwad i fyny, ar wahân i ddarparu coed 'hirgyff'. O'r 17eg Ganrif ymlaen, gyda chynnydd yn y diddordeb mewn garddio a gwelliannau amaethyddol, daethpwyd â rhywogaethau newydd i mewn, gan gynnwys dau fath o gastanwydd, sycamorwydd ac amrywiaeth o gonifferau, ac anogwyd dulliau coedwraeth newydd. Er enghraifft, roedd Thomas Johnes wedi plannu miliynau o goed erbyn diwedd y 18fed ganrif ar ei ystâd yn yr Hafod yng Nghanolbarth Cymru, gan gynnwys cellïoedd helaeth o Larwydd Ewropeaidd. Yn ystod y 19eg Ganrif, daeth casglwyr planhigion yn ôl â rhywogaethau newydd o gonifferau, gan gynnwys Ffynidwydd Douglas a Chochwydd Califfornia sydd bellach mor nodweddiadol o dirwedd y Gororau. Ond roedd y cynnydd dramatig yn y galw gan y diwydiannau glo, haearn ac eraill yng Nghymru erbyn diwedd y 19eg Ganrif yn drech o lawer na'r cyflenwad lleol, a daeth porthladdoedd De Cymru'n fannau mewnforio pwysig o bren. Dyma'r pwysau a roddodd derfyn ar y dulliau rheoli coetir traddodiadol a oedd wedi parhau am 2000 o flynyddoedd bron.

### Hanes yr ugeinfed ganrif

Daeth y newidiadau mwyaf dramatig yn nosbarthiad a chyfansoddiad coetiroedd Cymru yn yr 20fed

Ganrif. Yn ystod y naill Ryfel Byd a'r llall, arweiniodd galw'r wlad am bren at glirdorri llawer o goedwigoedd am y tro cyntaf er mwyn gael digon o bren i gymryd lle yr hyn a fyddai fel arfer wedi cael ei fewnforio. Erbyn 1919 roedd tua 5% o dir Cymru o dan orchudd o goed, efallai treian neu chwarter o'r hyn y bu yn ystod yr Oesoedd Canol. Arweiniodd yr argyfwng at sefydlu'r Comisiwn Coedwigaeth ym 1919 gyda'r prif nod ar greu adnoddau strategol wrth gefn o bren i'r genedl. Yn dilyn y rhyfeloedd hyn, y chwalu o lawer o'r ystadau mawr a cholli llawer o goedwigwyr medrus, cafwyd llawer o goetiroedd eu gadael fel adnoddau cynhyrchiol o dan reolaeth.

**Y cyfnod cyfoes**

Fel sydd yn wir am rannau eraill o economi cefn gwlad, bu coedwigaeth yn destun newidiadau mawr yn ystod ail hanner yr 20fed Ganrif. Mae etifeddiaeth coetir Cymru'n ganlyniad i'r newid hwn, a greodd lwyfan am ddatblygiad y strategaeth hon.

Bu'r twf mewn coetiroedd coniffer masnachol yn nodwedd pwysicaf yr hanner can mlynedd diwethaf. Cafwyd yr ehangiad mwyaf mewn coetiroedd ar dir uchel Cymru ac yng Nghymoedd y De yn ystod 50au, 60au ar 70au. Cyd-ddigwyddodd yr ehangiad hwn â chamau technolegol a wnaeth treinio tir gwlyb a phlannu llwyddiannus ar rostir y tir uchel gwael eu maeth yn bosibl. Gwelodd y 1970au gynnydd yn y pwyslais ar fwyafu elw masnachol trwy blannu conifferau o gynhyrchiant uchel, yn enwedig sbriwswydd Sitca.

Er mai'r Comisiwn Coedwigaeth oedd wedi gwneud llawer o'r plannu cynharach, cafwyd ehangiad pwysig yn y 70au a 80au mewn plannu ar yr ucheldir gan dirfeddiannwyr preifat mewn ymateb i ysgogiadau treth a chymorthdal gan y llywodraeth. Bu'r ehangiad parhaus hwn yn ddadleuol am amrywiaeth o resymau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd. Yn aml, teimlai'r cymunedau lleol nad oedd ganddynt unrhyw ddylanwad ar y newid chwim hwn mewn defnydd tir a oedd yn effeithio ar yr amgylchedd lleol a'r economi gwledig. Esgorodd y pryderon hyn ar nifer o anghydfodau ynglŷn â choedwigaeth a phatrymau defnydd tir yng Nghymru yn y dyfodol.

Rhoddwyd terfyn ar ehangiad coetiroedd ar raddfa helaeth yn ystod y blynyddoedd diweddar oherwydd newidiadau mewn polisi a gwelwyd y Comisiwn Coedwigaeth yn tynnu allan o raglenni plannu helaeth newydd, a hefyd gan newidiadau i'r ysgogiadau ariannol a gynigiwyd i berchnogion preifat o 1988 ymlaen.

Ond yr oedd polisi llywodraethau dilynol i gynyddu'r ystâd goedwig genedlaethol wedi'i wireddu gyda'r gorchudd o goed wedi codi i dua 13% o dir Cymru. O hynny, mae treian o dan rywogaethau o goed llydandail a dau dreian o dan gonifferau. Gan y bydd arwynebedd sylweddol o goedwigoedd conifferau'n cael eu cynaeafu yn ystod y 30 mlynedd i ddod, ceir cyfle i ail-wampio'r coetiroedd hyn er mwyn cynnig buddion ehangach i'r gymdeithas. Gall ystâd Comisiwn Coedwigaeth chwarae rhan arweiniol yn y broses hon gan fod 80% o'i ystâd yn gonifferau, mewn cymhariaeth ag ond hanner yn y coetiroedd preifat a rhai eraill sydd ddim yn dod o dan y Comisiwn Coedwigaeth.

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae amcanion rheolaeth coetir wedi newid yn ddirfawr, gyda chynnydd yn y pwyslais ar goetiroedd aml-bwrpas a reolir at ddibenion hamdden, tirwedd a bywyd gwyllt yn ogystal ag ar gyfer cynhyrchu pren. Roedd sylweddoli bod coed yn chwarae rhan hanfodol wrth amsugno carbon monocsid a felly helpu gwella’n newidiadau i’r hinsawdd wedi cyfrannu tuag at y pwysigrwydd a osodir bellach ar hyrwyddo rheolaeth goedwig gynaliadwy drwy’r byd i gyd. Rhaid ystyried yr effeithiau cyfannol ar economi Cymru ar gynaliadwyedd rhyngwladol, gan gynnwys y galw am gynhyrchion pren ochr yn ochr â rheolaeth coetiroedd yng Nghymru. Mae cyfraniad i gynaliadwyedd go iawn yn sail i ddatblygiad y strategaeth hon.

Yn ystod y ganrif ddiwethaf, cafwyd newidiadau anferth i’r defnydd a wnawn o bren a chynhyrchion pren, ac mewn dulliau cynaeafu a phrosesu’r pren hwnnw. Mae diwydiannau trwm Cymru wedi dirywio ac mae’r marchnadoedd disgwyliedig am bren coniffer llai ar gyfer y pyllau glo wedi diflannu. Fel sydd yn wir am amaethyddiaeth a diwydiannau gwledig eraill, ceir pwyslais cynyddol ar adnewyddiad technegol er mwyn cynnal y gallu i gystadlu’n ryngwladol trwy well gynhyrchiant ac mae cyflogaeth ym mhob un o’r diwydiannau hyn wedi dirywio wrth i dechnoleg symud yn ei blaen a chynhyrchiant peiriannol gynyddu.

Methodd y prinderau pren byd-eang a chafodd eu darogan mor hyderus yn yr 70au a’r 80au â dod yn ffaith ac mae’r pris a delir am bren ar farchnad y byd wedi dirywio mewn termau go iawn. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gwaethygwyd y dirywiad hyn mewn prisoedd gan ddirywiad economaidd yn Ne-Ddwyrain Asia ac argaffaeledd hawdd o fewnforion cystadleuol iawn yn enwedig o Lychlyn a Gwledydd y Baltig a ffafriwyd gan gyfraddau manteisiol cyfnewid arian. Er gwaethaf hyn oll, mae cynhyrchwyr y DU wedi datblygu eu rhan o’r farchnad yn llwyddiannus. Mae ‘cadwyn bren’ y diwydiant yn cael ei dominyddio gan cwmnïau bach a chanolig, llawer ohonynt yn fasnachwyr unigol neu bartneriaethau ar sail deuluol.

Mae sector prosesu pren Cymru wedi gweld newid strwythurol a buddsoddiad newydd pwysig. Ni fu’n bosibl i lawer o’r melinau llif gystadlu ac maent wedi cau, ond mae nifer o felinau arbenigol, wedi’u haddasu’n dda i gynhyrchu cynhyrchion gwerth ychwanegol neu wasanaethu marchnadoedd lleol yn cystadlu’n effeithlon. Mae sector melinau llif pren meddal y DU, yn unol â thueddiadau byd-eang, yn canolbwyntio mewn llai o unedau cyfoes mwy eu maint ac mae melinau pylp a bwrdd-panel bellach yn gweithredu ar raddfa fyd-eang.

Oddi ar 1985, buddsoddwyd dros £150 o filiynau mewn diwydiannau prosesu pren technoleg uwch. Mae’r buddsoddiadau hyn yn dibynnu ar argaffaeledd cyflenwad cystadleuol o bren ac maent yn agos i farchnadoedd Cymru a Lloegr. Mae cynhaeaf conifferau Cymru’n parhau i gynyddu ac erbyn 2010 bydd wedi dyblu mewn llai nag 20 mlynedd ac yn cynnig cyfle am ehangiad pellach. Ychwanegir at y cyflenwad crau ar gyfer melinau pylp a bwrdd-papur gan ddefnyddio papur a phren gwastraff, er bod hyn yn tueddu i ddirwasgu’r galw am pren crwn bychan.

Mae llawer o gwmnïau crefft ac arbenigol yn defnyddio’r adnoddau pren caled. Ond daeth cau’r pyllau glo â therfyn ar ddiwydiant bach ond pwysig ar sail pren caled, a bellach yr unig farchnad fras ar gyfer

pren caled yw melin papur St Regis ym Morthiscoed ger Casgwent. Mae marchnad ffyniannus am goed tân yn bodoli mewn mannau o Gymru ond mae dod o hyd i ddefnydd gwerth uchel am adnoddau pren caled yn aros yn her. Mae prosiectau megis Coed Cymru wedi helpu llawer o gwmnïau bychain a sefydlwyd i brosesu cynhyrchion gwerth ychwanegol o logiau bach pren caled. Bydd angen cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu i fod yn fusnesau cynaliadwy.

Mae gan ddatblygiad marchnad ynni sylweddol y potensial i rhoi hwb o bwys i'r farchnad am logiau bychain o deneuadau, gwastraff coedwig a chyd-gynhyrchion o fusnesau prosesu pren sydd eisoes yn bodoli.

Mae gan Gymru adnoddau coedwig pwysig gyda chynaeaf blynyddol cynyddol o bren. Yn wahanol i lawer o adnoddau naturiol eraill, bydd ein coedwigoedd yn parhau i gynhyrchu cyflenwad o bren cynaliadwy am ganrifoedd i ddod, os cânt eu rheoli'n ddoeth.

Ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf, roedd pryder cynyddol wedi datblygu am rywogaethau o blanhigion a chreaduriaid o dan fygythiad yng Nghymru, llawer ohonynt yn dibynnu ar gynefinoedd y coetiroedd. Mae coetiroedd brodorol yn cynnal mwy o rywogaethau nag unrhyw gynefin unigol arall yng Nghymru. Erbyn hyn, dim ond 2% o dir Cymru sydd o dan orchudd coetiroedd hynafol, hanner naturiol, ac mae llawer o'r coed yn ein parciau hanesyddol a thirweddau bellach yn or-aeddfed. Rhaid mai diogelu a hyrwyddo'r cynefinoedd gwerthfawr hyn yw'r nod, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd o godi bioamrywiaeth holl goetiroedd Cymru.

**Paratoi'r Strategaeth**

Ym mis Mawrth 1999, gofynwyd i'r Comisiwn Coedwigaeth gan Weinidog Coedwigaeth Cymru i sefydlu a chadeirio grwp rhyng-adrannol i ystyried datblygiad strategaeth coetir i Gymru. Ystyriwyd gyflwyniadau a chasglwyd barn academwyr a chyfranogwyr amgylcheddol a diwydiannol sylweddol gan y Gweithgor a gynhwysodd gynrychiolwyr y Comisiwn Coedwigaeth, Adran Amaethyddiaeth ac Adran Amgylchedd y Swyddfa Gymreig, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth Amaethyddiaeth a Chadwraeth Wledig, Asiantaeth Amgylchedd Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Cadw: Henebion Cymru, gyda chynrychiolwyr Parciau Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yna cyhoeddodd y grwp ddogfen ymgynghori â'r cyhoedd '*Coetir i Gymru*' ym mis Tachwedd 1999 a geisiai farn ar gyfeiriad coetiroedd Cymru i'r dyfodol. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, trefnodd y Gweithgor bum gweithdy ledled Cymru i fod yn sail wybodaeth i'r broses ymgynghori a chyhoeddodd y ddogfen hefyd ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth gan geisio ymatebion.

Dyma brif gasgliadau'r ymgynghori:-

- Cydnabu 78% o'r ymatebwyr yr angen am strategaeth coetir newydd i Gymru, gyda chefnogaeth gryf am strategaeth sydd yn glir ei hamcanion, cynhwysol yn ei hagwedd ac sydd yn mwynhau cefnogaeth gan y Llywodraeth wrth gael ei gweithredu. Cafwyd galwad cryf am i'r strategaeth cyd-gysylltu â meysydd polisi defnydd tir gwledig eraill, yn enwedig amaethyddiaeth, er mwyn

sicrhau ei bod yn rhan o agwedd gyfannol tuag at yr ardaloedd gwledig a gwaith asiantaethau eraill, gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, wrth hyrwyddo datblygiad economaidd gwledig. Cafwyd farn gyson ar draws pob sector bod angen gweledigaeth hir-gyfnod i'r strategaeth – 50 mlynedd neu fwy – yn rhoi hyblygedd o fewn fframwaith cadarn.

- Cafwyd cefnogaeth gyffredinol am barhad yr ymgynghori wrth ddatblygu'r strategaeth. Cafwyd barn helaeth y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael cyfranogiad gweithredol mewn datblygiad strategol i'r dyfodol, yn enwedig wrth ddatblygu agweddau rhyng-adrannol/ traws asianataethol yn berthnasol i weithrediad y strategaeth. Roedd posibiliadau'n bodoli am ddatblygu Fforwm Coetir cenedlaethol ac o bosibl ffora rhanbarthol gydag aelodaeth eang a chynhwysol i symud strategaethau cenedlaethol a mwy lleol yn eu blaen.

Thema a gafwyd trwy lawer o'r ymatebion oedd gweledigaeth o strategaeth holistaidd a chynaliadwy i goetir Cymru a fydd yn cyflawni gwell integreiddiad o ddefnyddiau tir gwledig, yn rhoi pwysau cyfartal ar destunau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ac yn cyflawni buddion aml-bwrpas cynaliadwy. Cafwyd dyhead cyffredinol i bwysleisio ansawdd yn hytrach na chyfaint yr holl 'gynhyrchion' a ddarperir gan goetir a chydnabyddiaeth bod angen datblygu dulliau newydd i werthuso'r buddion anfarchnadol go iawn y mae coetiroedd yn eu cynnig.

**Yr Elfennau Adeiladu Allweddol a gydnabuwyd ar gyfer Strategaeth i'r Dyfodol:**

**Maint a math y gorchudd o goetir:** Roedd y pwyslais ar wella rheolaeth yr adnoddau coetir a oedd eisoes yn bodoli yn hytrach nag ehangu. Cafwyd galwad am well gydbwysedd rhwng conifferau a choed llydandail, mewn blociau unigol yn ogystal ag ar draws yr adnodd i gyd.

**Lleoliad y gorchudd coetir:** Cafwyd dymuniad ymhlith llawer o'r atebwyr i waredu'r planhigfeydd aneconomaidd ar y tir uchel a'u trosi yn ystod mwy amrywiol o goetiroedd a chynefinoedd eraill. Ar y tir isel roedd y prif bwyslais ar gyd-gysylltu'r adnodd llydandail gandryll a chreu coetir newydd o fewn yr ardaloedd trefol ac o'u hamgylch.

**Dulliau coedwrol ar gyfer y dyfodol:** Dyma faes pwysig o bryderon ymhlith atebwyr ac yn y gweithdai. Trwy gydol yr ymatebion cafwyd dyhead clir a chryf i symud tuag at ddulliau coedwrol mwy naturiol, gyda phwyslais cryf ar ddefnyddio coedwigaeth gorchudd di-dor.

**Cefnogaeth i'r diwydiant pren sydd eisoes yn bodoli:** Nodwyd y cafwyd buddsoddi sylweddol yn y diwydiant prosesu pren meddal cyfaint uchel. Mae angen sicrwydd ar y sector hwn bod ei gyflenwad o bren yn y dyfodol yn ddiogel, yn enwedig yng ngoleuni prisiau pren rhyngwladol ar hyn o bryd.

**Ychwanegu gwerth yn lleol:** Cafwyd cefnogaeth helaeth i'r syniad o ychwanegu gwerth yn lleol at bren meddal a phren caled, mewn marchnadoedd bras ac arbenigol. Byddai hyn yn cynyddu cyflogaeth leol, cadw'r buddion o fewn y gymuned leol, lleihau anghenion cludiant a chwrdd ag amcanion cynaliadwyedd.

**Marchnata ac achrediad:** Pwysleisiodd proseswyr mai y ffordd orau i ddatblygu cynhyrchion yw trwy'r busnes ei hunan gyda chefnogaeth arbenigedd masnachol ac academaidd allanol. Cafwyd galw helaeth am ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn anelu at hyrwyddo cynhyrchion coetiroedd Cymru.

**Coetir fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy:** Cydnabuwyd gan lawer y gallai prosesu pren mewn cydweithrediad â datblygiad gweithfeydd gwres ac ynni ar y cyd yn yr ardal leol gynnig buddion gwirioneddol economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

**Coetiroedd ac amaethyddiaeth:** Cafwyd cefnogaeth helaeth i well integreiddiad o amaethyddiaeth a choedwigaeth. Ond cafwyd sylwadau helaeth ar yr anghyfartaledd ymddangosiadol rhwng cymorthdaliadau amaethyddol a grantiau coedwigaeth.

**Cwrdd ag amcanion bioamrywiaeth:** Ymhlith y rhai oedd yn cynrychioli sector cadwraeth natur, cafwyd dyhead cryf am i Gynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth y DU fod yn gonglfaen y strategaeth. Cafwyd galwad cryf hefyd am gydnabyddiaeth benodol o goetiroedd hynafol hanner-naturiol yn y strategaeth, gan adlewyrchu eu gwerth cadwraethol uchel.

**Cymeriad tirwedd a hunaniaeth leol:** Cafwyd dyhead cryf am weld adlewyrchiad o gymeriad tirwedd Cymru yn y strategaeth coetir, gyda choetiroedd yn tanlinellu hynodrwydd lleol.

**Coetiroedd cymunedol a chyfranogiad y cyhoedd:** Cafwyd cefnogaeth gryf am greu coetiroedd cymunedol, yn enwedig ar dir diffwyth a difrodedig. Cafwyd cefnogaeth sylweddol hefyd ar draws y gwahanol sectorau am gyfranogiad cymunedol ehangach wrth reoli coetiroedd preifat a chyhoeddus.

**Mynediad:** Cafwyd galwad am fwy o fynediad i goetiroedd gan y cyhoedd ond cytunwyd yn gyffredinol y dylai hynny fod ar sail wirfoddol yn achos coetiroedd preifat.

**Rhagdybiaethau:** Rhoddwyd pedwar senario ymlaen yn y ddogfen ymgynghori er mwyn symbylu trafodaeth, sef, (1) senario ar sail *grymoedd y farchnad*, (2) *economi integreiddiedig gwledig*, (3) *yr amgylchedd* a (4) *arfaethiad o'r sefyllfa bresennol*. O'r rhain, roedd senario'r economi integreiddiedig gwledig yn fwyaf poblogaidd ymhlith y sawl a fynegodd ffefryn unigol, ond roedd y mwyafrif am gael cyfuniad o ddau senario neu fwy.

**Grantiau Coetir:** Cafwyd galw am olwg hir-gyfnod â hyblygrwydd, fel y byddai modd cyfeirio grantiau at fannau gwan a gwahanol feysydd ar wahanol adegau. Cafwyd cefnogaeth gryf hefyd am dargedu grantiau coetir fel ffordd o gael gwerth am arian. Dylid seilio targedu ar bartneriaethau aml-asiantaethol integreiddiedig, sydd yn ceisio cysylltiadau agos rhwng coetiroedd a defnyddiau tir eraill.

**Ymchwil a Hyfforddiant:** Roedd yr angen am hyfforddiant bellach yn thema gyson. Roedd y canlynol ymhlith y meysydd allweddol am ymchwil: arferion coedwrol; newid hinsawdd a'r goblygiadau ar gyfer rheolaeth coetir; gwerthfawrogi buddion an-economaidd coetiroedd; ac ymchwilio cynhyrchion a

marchnadoedd newydd.

**Rheoli'r Ystâd Goedwig Gyhoeddus:** Cafwyd cydsyniad helaeth y dylid rheoli'r ystâd gyhoeddus fel esiampl o'r arferion gorau wrth gyflawni buddion aml-bwrpas cynaliadwy – Coedwigaeth Enghreifftiol. Cafwyd gwrthwynebiad cryf iawn i unrhyw werthiannau pellach o'r ystâd goedwig ar y sail bod gwerthiannau'n annhebygol o ariannu ystod o fuddion cyhoeddus mor eang ag a ddarperir ar hyn o bryd. Ond y roedd nifer o ymatebwyr am weld rhesymoliad pwyllog o'r ystâd goedwig, gyda gwerthiant y coetiroedd hynny y byddai'n hawdd eu rheoli gan y sector preifat a 'r arian a godir yn cael ei defnyddio i greu coetir.

**Y broses yn dilyn ymgynghori**

Dadansoddwyd canlyniadau'r ymgynghori yn annibynnol a chyflwynwyd adroddiad i'r Gweithgor a ehangwyd trwy gynnwys cynrychiolwyr y diwydiant coedwigaeth a'r sector amgylcheddol gwirfoddol. Dosbarthwyd adroddiad yr ymgynghoriad i bawb oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad a chafwyd ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth.

Cyflwynwyd adroddiad ar y broses ymgynghorol i Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol a gefnogodd cynhyrchiad y strategaeth hon. Datblygodd y Gweithgor estynedig drafft y strategaeth amlinellol a drafodwyd gyda'r cyfranogwyr mewn ***Gweithdy Cyfranogwyr*** ym mis Tachwedd 2000. Trafodwyd amlinelliad diwygiedig o'r strategaeth drachefn yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig ym mis Rhagfyr 2000. Ystyriwyd drafft terfynol y strategaeth gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2001.